




SENEDD!



Adroddiad Swyddogion Nate Pidcock

**Senedd
22/02/2021**



Crynodeb y Llywydd:

Wel, helo helo helo, a chroeso i Senedd rhif 3 ar gyfer 2020/2021! Os ydych chi'n mynd i dreulio amser yn darllen hwn, hoffwn ddiolch i chi am fod yn aelod gweithgar o'r undeb ac am gyfranogi – mae hyn yn golygu cryn lawer i mi! Isod mae rhestr o ddiweddariadau gan ein swyddogion gwych, sydd wedi bod wrthi'n gweithio ar nifer o weithgareddau yn ystod y ddau fis diwethaf. Er gwaethaf y ffaith ein bod ni i gyd yn gweithio mewn gwahanol leoliadau, rydyn ni wedi llwyddo cynnal ambell brosiect grŵp ar y cyd, ac rwy'n hynod falch cael bod yn Llywydd yr Undeb eleni, gyda thîm mor rhagweithiol a brwdfrydig.

Yn Rhagfyr, roeddwn i ar banel o ddau (fi a'r dirprwy gadeirydd, Ryan) yn recriwtio ymddiriedolwr newydd ar gyfer ein helusen. Mae'n bleser gen i gyhoeddi mai Jon Allsop fydd yr ychwanegiad gwych at ein tîm; mae ganddo wybodaeth helaeth am Undebau Myfyrwyr a'r heriau y gallant eu hwynebu. Gweithgaredd tîm arall y gallech chi fod wedi'i weld ar y campws oedd syrpreis Siôn Corn a'r Corachod ar gyfer myfyrwyr. Roedden ni i gyd wedi ein gwisgo'n briodol, ac fel aethon ni ati i ddosbarthu melysion a danteithion i fyfyrwyr ar draws y campws trwy gydol y mis; roedd y myfyrwyr wrth eu bodd, ac fe dderbynion ni adolygiad cadarnhaol ar *Aberfess!* Fel rhan o'n gweithgareddau Nadoligaidd, trefnais galendr llawn o weithgareddau ar gyfer myfyrwyr oedd yn aros yn Aber dros yr ŵyl, oedd yn boblogaidd iawn. Ynghyd â hyn, prynwyd, Paciwyd a danfonwyd dros 220 o anrhegion Nadolig (gwerth tuag £20 yr un) i'r myfyrwyr hynny oedd yn aros yn Aber dros y gwyliau, rhywbeth a gafodd effaith gadarnhaol dros ben ar y myfyrwyr hynny.

Ers Ionawr, rydyn ni wedi gorfod ymdopi â nifer o heriau yn sgil y ffaith bod dychweliad myfyrwyr wedi cael ei ohirio. Gallaf ddweud 100% ein bod ni wedi delio â'r heriau hyn yn wych fel tîm, wastad yn rhoi myfyrwyr wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud. Mae hyn wedi cynnwys ambell fuddugoliaeth sylweddol, fel ad-daliadau llety i fyfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol, penderfyniadau ynghylch rhwyd ddiogelwch a lobiö landlordiaid preifat i ostwng rhenti myfyrwyr. Hefyd, rydw i, ynghyd â Connor, wedi bod wrthi'n llunio cynllun ar gyfer fframwaith 'meddyliau myfyrwyr', gan sicrhau bod ein UM yn lle diogel i fyfyrwyr, a'i fod yn cadw at feincnodau penodol o ran darparu cymorth iechyd meddwl o safon. Tua diwedd llynedd, cefais y newyddion gwych fy mod i wedi llwyddo sicrhau £2,500 ar gyfer hyfforddi aelod staff mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, ac i hyfforddi gweddill ein staff ac efallai rhai myfyrwyr. Mae hwn yn rhywbeth rydyn ni'n gweithio arno ar hyn o bryd, gan obeithio y bydd mwy o newyddion ar gael cyn bo hir.

Wrth i mi edrych ar bopeth rwyf i a'r tîm wedi'u cyflawni hyd yma, rwy'n hynod o falch. Roeddwn i am fanteisio ar y cyfle hwn i roi gwybod i bobl na fyddaf yn sefyll ar gyfer rôl y Llywydd eto, gan fy mod yn teimlo fy mod i wedi gwneud rhai newidiadau positif o fewn yr UM, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut y bydd tîm newydd yn cynnal hyn ac yn gwella arno. Rwyf wedi cael y flwyddyn orau hyd yn hyn, ac rwy'n gobeithio y bydd y 4 mis olaf yn y swydd yr un mor foddhaol a llwyddiannus. Ond nawr mae'n amser i mi edrych tua fy nyfodol.

Woj – Swyddog Cyfleoedd

Mae'r adroddiad hwn gan y Swyddog Cyfleoedd yn cynnwys gwaith a wnaed tua diwedd Rhagfyr 2020 a thrwy gydol Ionawr 2021.

1. Mae Swyddfa Cyfleoedd wedi bod yn gweithio ar ddatblygu datrysiaid amgen i'r digwyddiadau oedd ar y gweill ar gyfer yr 2^{il} semester: *Superteams*, yn ogystal â Her Aber. Rydym wedi creu digwyddiad 'wythnosol' newydd, fydd yn cael ei gynnal dros 6 wythnos yn olynol, gan ddechrau ar 1^{af} Chwefror. Bydd hyn yn cynnwys heriau ar sail cyfryngau cymdeithasol (digwyddiadau chwaraeon a rhai eraill nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon) y gall unrhyw fyfyrwr Prifysgol Aberystwyth ymgymryd â nhw. Gelwir y digwyddiad yn Her Fawr Aber.
2. Mae'r Swyddog Cyfleoedd wedi bod yn gweithio'n agos gyda grŵp o fyfyrwyr i ddatblygu Gŵyl y Celfyddydau am y tro cyntaf erioed; y bwriad yw cynnal y digwyddiad ar-lein yn ystod wythnos gyntaf Mawrth 2021. Mae'r gweithgor wedi datblygu syniadau, wedi llunio cynllun gweithredu, ac wedi annog myfyrwyr o'r adran Gyfrifiadureg i weithio'n wirfoddol ar greu platform ar gyfer y digwyddiad hwn.
3. Mae'r Swyddfa Cyfleoedd wedi derbyn cyllid yn ddiweddar ar gyfer amryw o amcanion, fel y nodir yn y ffurflenni Cais am Grant, at ddefnydd grwpiau myfyrwyr yn ystod yr 2^{il} semester.
4. Mae'r Swyddog Cyfleoedd yn gweithio ar greu gweithdy y gall grwpiau myfyrwyr ei fynychu, sydd â'r nod o ddatblygu sgiliau rheoli tîm, arweinyddiaeth a threfniant.
5. Mae'r Swyddfa Cyfleoedd wedi bod wrthi'n nodi pwyntiau (ar sail Cynllun Achredu Sêr Aber) ar gyfer y grwpiau myfyrwyr hynny sydd wedi dangos gwelliant ac wedi gweithredu'r newidiadau a awgrymwyd. Bydd hyn i'w weld ar wefan UMABer yn ystod yr wythnosau nesaf.
6. Mae'r Swyddfa Cyfleoedd wedi cysylltu â chynrychiolwyr UM Bangor ynghylch Rhyngolgampau Farsiti 2021, a fydd yn fwy na thebyg yn cael eu cynnal yn rhithwir; y gobaith yw y bydd y digwyddiad yn cynnwys heriau ymysg grwpiau myfyrwyr o'r naill brifysgol a'r llall.
7. Mae'r Swyddog Cyfleoedd wedi bod yn rhan o grŵp Gwerthuso Perfformiad Partner Coleg Cambria, sy'n cynhyrchu adroddiad ynghylch yr archwiliad.

Connor – Diweddariad Llesiant

- Wedi creu canllaw lleihau straen (i'w weld yn yr adran ar iechyd a llesiant).
- Wedi creu digwyddiadau 'Daliwch Ati' (paru ar gyfer llety, gweithgareddau cymunedol) gyda'r Swyddog Gweithgareddau – cynhelir y digwyddiadau rhwng 8^{fed} a'r 19^{eg}.
- Yn gweithio'n agos gydag eraill ar gyfer Mis Hanes LHDTC+.
- Wedi mynychu gweminar ar fynd i'r afael ag unigrwydd – y nod yw creu ymgyrch o amgylch hyn.
- Cwblhau paratodau ar gyfer Dim Esgusodion.
- Gweithio gyda'r Swyddog Cyfleoedd i gynnal Dim Esgusodion mewn clybiau a chymdeithasau.
- Rwyf wedi mynychu amryw o raglenni hyfforddiant, e.e. hyfforddiant pendantsrwydd a hyder.

- Wrthi'n diweddaru polisiau'n wythnosol.

Moc – Diweddariad UMCA a Diwylliant Cymru

- Wedi parhau i drefnu a darparu gwersi Cymraeg o'r safon uchaf, dan arweiniad cyfoedion, ar gyfer myfyrwyr.
- Wedi trefnu sesiynau gyda'r Urdd i geisio darbwylllo mwy o bobl ifanc 16-23 i gofrestru i bleidleisio.
- Wedi lobio'r Brifysgol yn llwyddiannus er mwyn sicrhau ad-daliadau 100% ar rent myfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol tan y Pasg.
- Wedi trefnu cystadleuaeth ddiwylliannol ryngolegol yn lle digwyddiadau allweddol yn y calendr cymdeithasol (oherwydd cyfyngiadau Covid). Hyd yma, mae Bangor, Caerdydd ac Abertawe wedi cytuno i gymryd rhan.
- Rwyf wedi bod yn rhan allweddol o Banel Gwerthuso Perfformiad Partner Coleg Gwent a Phrifysgol Aberystwyth. Trafodwyd 'Adborth Myfyrwyr' a 'Llais Myfyrwyr' gyda Rheolwyr, staff addysgu a myfyrwyr Coleg Gwent, er mwyn sicrhau bod yr un Safon yn cael ei chynnal yng Ngholeg Gwent â'r hyn sy'n cael ei gweithredu yn y Brifysgol.
- Wedi creu taflen ar gyfer Dydd Santes Dwynwen, er mwyn ceisio addysgu pobl ynghylch arwyddocâd y diwrnod, yn ogystal â chyhoeddi rhestr o Ganeuon Serch Cymraeg er mwyn hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg o fewn y Brifysgol.
- Rwyf wedi trafod ar sawl gorsaf radio'r effaith mae ymestyn addysgu ar-lein yn mynd i'w chael ar fyfyrwyr, o ran eu hiechyd meddwl ac yn ariannol.
- Rwyf wedi cwblhau cwrs 'Hyder a Phendantwydd' fel rhan o ddatblygiad personol parhaus.
- Wedi bod yn hysbysebu'r 'Bywyd Cymraeg yn Aberystwyth' ac 'Addysg Gymraeg' er mwyn ceisio denu myfyrwyr at fis Medi.
- Rwyf yn rhan o Banel Aberystwyth ar gyfer Gwobrau Dewi Sant, sy'n cydnabod myfyrwyr sy'n rhagori yn y Gymraeg.

Chloe – Diweddariad Materion Academiaidd

Ers y Senedd ddiwethaf, rwyf wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ein hymgyrch dargadwedd myfyrwyr 'Daliwch Ati', a gweithio gyda'r Brifysgol er mwyn dod i gytundeb ar bolisi rhwyd ddiogelwch i fyfyrwyr. Gyda chymorth y tîm ehangach, rwyf hefyd wedi cynnal sesiynau 'cwrdd a chyfarch' ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a chynrychiolwyr academiaidd.

Daliwch Ati

Cyn y Nadolig, anfonwyd arolwg allan i'r holl fyfyrwyr yn holi am eich diddordebau a ffyrdd posib o greu cyfleoedd i wneud ffrindiau. Yn Ionawr, aethom ati i edrych trwy bob ymateb i greu amserlen o weithgareddau rhithwir, wedi'u bwriadu i helpu myfyrwyr ag ehangu eu cymuned a chwrdd ag eraill o'r un anian â nhw. Cynhelir y digwyddiadau hyn bob dydd rhwng 8^{fed} a'r 19^{eg} Chwefror. Yn Ionawr, cynhaliwyd digwyddiad 'Daliwch Ati' o'r enw 'Cyfeillion Cyntaf' oedd â'r nod o roi cyfle i fyfyrwyr ganfod pobl i rannu llety â nhw yn y flwyddyn academiaidd nesaf. Roedd yr adborth o'r digwyddiad hwn yn gadarnhaol iawn, ac rydym yn bwriadu trefnu un arall yn y dyfodol agos.

Rhwyd Ddiogelwch i Fyfyrwyr

Tua dechrau Ionawr, cyfarfu tîm y swyddogion â Phwyllgor Gwaith y Brifysgol, lle codwyd y mater o rwyd ddiogelwch ar gyfer myfyrwyr. Bryd hynny, er bod gan yr undeb bolisi ar y



SENEDD!

mater hwn (hawl i ail-sefyll), roedd Pwyllgor Gwaith y Brifysgol yn anfodlon ystyried y mater ymhellach. Ers hynny, rwyf wedi cael sawl cyfarfod gyda llunwyr penderfyniadau allweddol yn yr adran Dysgu ac Addysg a'r Gofrestrfa Academaidd i ddwyn sylw at y materion mae myfyrwyr yn eu hwynebu, gan bwysleisio ymhellach yr angen am rwyd ddiogelwch i fyfyrwyr. Mewn partneriaeth â'r UM, mae cynnig polisi newydd wedi cael ei lunio gan y Gofrestrfa Academaidd ar gyfer rhwyd ddiogelwch i fyfyrwyr; pan ysgrifennwyd hwn, mae disgwyl i'r mater gael ei drafod gan Senedd y Brifysgol yn ddiweddarach yr wythnos hon, gan obeithio y caiff ei basio.